

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

**Adrodd ar Adran 6 – Tabled adrodd enghreifftiol ar gyfer Cyngorau Tref a
Chyngorau Cymuned**

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022

Enw'r Cyngor Tref neu Gymuned: **U N Arall**

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Cymuned U N Arall yn darparu amrediad o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys parc a mynwentydd.
- Drefnu dysglau a basgedi crog yng nghanol y dref.
- Cyllid – rydym yn rhoi grantiau ar gyfer prosiectau yn ardal y Cyngor. Mae hyn yn cael effaith ar fioamrywiaeth drwy raeadru meini prawf cyllid.

Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyedd a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Rydym yn gwasanaethu tua xxxxx o drigolion. Y praesept ar gyfer 2022–23 yw £xxxxx.

Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu i:

(Er enghraifft)

Wedi ei fonitro gan: (er enghraifft)

cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth yn ein prosesau penderfynu a chaffael

- Wedi adlewyrchu'r ymrwymiad i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2022
- Wedi rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill, megis gorchmynion dargyfeirio troetffordd a materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau yn yr ardal. Datblygu ymatebion addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd

Ymrwymadau a wnaed mewn dogfennau

Wedi dangos yr ystyriwyd bioamrywiaeth wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

<p>codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi trefnu "Cwis Eco" blynyddol ar gyfer plant ysgolion cynradd ar draws yr ardal. Mae'r digwyddiad hwn yn ehangu gwybodaeth y plant ac yn codi eu hymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chynaliadwyedd • Wedi trefnu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau a staff • Wedi annog yr holl gymuned i wirfoddoli i gynnal mannau natur/gwyrdd • Wedi cyhoeddi manylion y camau rydym wedi eu cymryd i helpu bioamrywiaeth ar ein gwefan ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol • Wedi cynnwys gwybodaeth yn ein llawlyfr i drigolion 	<p>Drwy adborth gan aelodau'r Cyngor a thrigolion.</p> <p>Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau</p>
<p>diogelu'r prif rywogaethau a chynefinoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi cyfrannu at y gwaith o reoli safleoedd gwarchoddedig, gan gynnwys Safleoedd Bywyd Gwylt Lleol/Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur • Wedi rheoli'r tir o'u hamgylch i'w hamddiffyn a'u cysylltu i greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth • Wedi sicrhau na fu effeithiau negyddol ar rywogaethau gwarchoddedig • Wedi hyrwyddo achos derwen wych fel rhan o gystadleuaeth Coeden y Flwyddyn yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd. 	<p>Cofnodion o unrhyw safleoedd neu rywogaethau wedi eu diogelu</p>

<p>-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi plannu blodau brodorol sy'n denu peillwyr mewn basgedi crog a dysglau • Wedi rhoi cymorth i goetir cymunedol lleol lle mae coed a phrysgwydd wedi cael eu plannu, sydd bellach yn noddfa ar gyfer bywyd gwylt ac yn cynnwys nodweddion fel mainc gymunedol • Wedi dylunio'r dirwedd yn Nhŷ'r Cyngor i annog poblogaeth bywyd gwylt amrywiol, yn enwedig pryfed peillio megis gwenyn a glöynnod. • Wedi creu ardaloedd bywyd gwylt mewn mynwentydd i ddarparu mannau ar gyfer nythu a bwrw'r gaeaf, i annog amrediad o rywogaethau. • Wedi newid y trefniadau torri gwair, gan dorri gwair yn llai aml er mwyn annog blodau gwylt a phlanhigion eraill sy'n denu peillwyr, yn ogystal â darparu lloches ar gyfer mamaliaid ac ymlusgiaid bach. • Wedi gosod blychau nythu yn ein hadeiladau i roi mannau diogel ar gyfer adar sy'n cael trafferth nythu. 	<p>Arwynebedd cynefinoedd wedi cynyddu.</p> <p>Nifer y mannau nythu a ddarparwyd</p>
<p>-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: er enghraifft, defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Polisi caffael cynaliadwy sy'n cynnwys sicrhau bod nwyddau swyddfa fel papur, cynhyrchion glanhau a dodrefn swyddfa'n dod o ffynonellau cyfrifol (e.e. yn lleol a/neu ddeunyddiau sydd wedi cael eu hailgylchu) • Wedi prynu bin compostio ar gyfer ein gwastraff gwyrdd. Gydag amser bydd y gwastraff hwn yn cael eu defnyddio yn ein 	<p>Wedi trin ardaloedd lle mae rhywogaethau goresgynnol</p> <p>Faint o bladdwr a ddefnyddiwyd</p>

	<p>dysglau a'n basgedi crog, yn lle compost sy'n seiliedig ar fawn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio rhagor o offer nad ydynt yn amharu ar yr amgylchedd. Gwnaethom brynu offer garddio gwyrddach i helpu i amddiffyn adnoddau gwyrdd y ddaear. Mae'r rhain yn cynnwys torrwr prysgwydd a thociwr gwrychoedd sy'n defnyddio batris. • Wedi defnyddio plaladdwyr dim ond lle mae gwir angen i reoli rhywogaethau estron goresgynnol fel Clymog Japan 	
defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi gweithio gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth yn y Cyngor Bwrdeistref Lleol (er enghraifft) i sicrhau y defnyddir yr arferion gorau ac i gynyddu gwybodaeth am faterion lleol. • Wedi derbyn cyngor gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol (CCAau) ar safleoedd lleol a rhywogaethau o ddiddordeb. • Wedi rhoi unrhyw ddata a gasglwyd drwy arolygon lleol i'r CCAau 	<p>Cyflwynwyd cofnodion i'r CCAau</p> <p>Defnyddio cyngor arbenigol</p>
cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi lansio cynllun gwobrau blynyddol i gydnabod cyflawniadau trigolion neu sefydliadau lleol sy'n hyrwyddo materion amgylcheddol. Mae enillwyr wedi cynnwys ysgol ac unigolyn sydd wedi rhoi llawer o gymorth wrth gynnal a chadw gwarchodfa natur leol • Wedi'i gwneud yn ofynnol i unrhyw sefydliadau sy'n derbyn grant gennym ddangos sut y 	<p>Cyfanswm y gwariant a fydd yn rhoi manteision bioamrywiaeth cadarnhaol</p> <p>Sefydlwyd partneriaethau i sicrhau manteision bioamrywiaeth</p>

	<p>bydd eu prosiect yn cyfrannu at gefnogi bioamrywiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol i ddarparu rhagor o wirfoddolwyr i wella mannau bywyd gwyllt lleol 	
--	--	--

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

- Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Mae'r gwaith o greu mannau blodau gwyllt a phlanhigion wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig gan fod y mannau hyn wedi denu trigolion yn ogystal â helpu bioamrywiaeth. Hefyd arbedwyd arian drwy dorri'r gwair yn llai aml.

- Beth fu'r rhwystrau?

Diffyg arbenigedd i nodi'r newidiadau sydd eu hangen neu'r arferion gorau.

- Beth byddwch yn ei newid?

Ceisio cyngor gan y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol leol a'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.

- Sut a phryd bydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 yn cael adolygu?

Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro drwy Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Chynllunio, a thrwy swyddogion unigol yn adrodd yn ôl i'r cyngor ynghylch llwyddiant y camau a gymerwyd, neu fel arall, drwy'r archwiliadau wythnosol, misol a blynyddol arferol.

Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiadau hyn ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i'r Cyngor. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, nid oedd amser na dyddiad penodol wedi eu pennu ar gyfer adolygu'r cynllun, ond gwneir hyn o fewn y chwe mis nesaf.

